

Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio

Gogledd Cymru

2021 - 2024

Diweddariad ar Gynnydd – Mehefin 2022

Cynnwys

1.	Crynodeb Gweithredol 2021 – 24.....	3
2.	Cyflwyniad.....	4
3.	Llywodraethiant.....	5
4.	Meysydd cynnydd penodol.....	6
5.	Cynllun Cyflawni a diweddariadau.....	7 - 20

1. Crynodeb Gweithredol

Ein gweledigaeth:

'Gall pobl Gogledd Cymru fyw bywydau diogel, cydradd a di-drais, mewn cymunedau heb ddioddef camdriniaeth na chamfanteisio'.

Mae Gogledd Cymru'n cydweithio ar daclo pob agwedd ar Drais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol, Caethwasiaeth Fodern, Masnachu Pobl, Troseddau Mewnfudo Cyfundrefnol a Chamfanteisio.

Mae Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn cynrychioli'r holl bartneriaid statudol ac anstatudol ledled y rhanbarth, gydag ymrwymiad i ddull cydweithredol a chydlynol o fynd i'r afael â phob elfen o fregusrwydd a chamfanteisio.

Mae Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru 2021-2024 yn cynnwys dull amlasiantaeth o fynd i'r afael â bregusrwydd a cham-fanteisio yng Ngogledd Cymru. Mae agendau Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a Chaethwasiaeth Fodern wedi eu halinio â'r pedwar Amcan Strategol:

PARATOI ATAL GWARCHOD YMROI

Mae'r Strategaeth yn galluogi ac yn cefnogi arferion a syniadau arloesol, yn ogystal â chefnogi gwasanaethau presennol, er mwyn darparu pecyn cydlynus o gymorth i ddioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd. Mae'r strategaeth hefyd yn sicrhau bod cyflawnwyr yn atebol ac yn cefnogi cymunedau er mwyn hyrwyddo ethos o ddiogelwch, cydraddoldeb a lles.

2. Cyflwyniad

Cyfarfu Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru am y tro olaf yng ngwanwyn 2020 o ganlyniad i ddiwygio strwythur cyfan y Bwrdd Strategol ledled Gogledd Cymru. Yn dilyn cryn dipyn o waith a chydweithio, penderfynwyd y byddai'r agenda VAWDASV yn ymuno â Chaethwasiaeth Fodern, Masnachu Pobl, Troseddu Mewnfudo Cyfundrefnol a meysydd eraill o gamfanteisio troseddol. Gelwir y trefniant newydd y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio.

Datblygwyd strategaeth newydd yn 2020/21, sy'n darparu nodau strategol clir ar gyfer y rhanbarth. O dan hynny, ceir Cynllun Cyflawni sy'n nodi amcanion tymor byr, tymor canolig a hirdymor. Mae hwn yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd i ddangos y cysylltiadau â Strategaeth VAWDASV Cymru Gyfan a'r Glasbrint.

Mae'r Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio yn dangos yn glir bod Gogledd Cymru wedi ymrwmo i daclo camfanteisio ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, a bod hynny'n flaenoriaeth i bob partner yn y sectorau statudol ac anstatudol.

Mae Bwrdd Partneriaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru'n rhwydwaith strategol o asiantaethau sydd wedi eu halinio ledled y chwe Ardal Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam), sydd yn cynnwys sefydliadau yn y sectorau statudol, anstatudol a'r trydydd sector.

Pwrpas y bartneriaeth strategol yw creu ymateb cydgysylltiedig, effeithlon a chynhyrchiol er mwyn tacllo Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a Chaethwasiaeth Fodern, Masnachu Pobl, Troseddu Mewnfudo Cyfundrefnol a Chamfanteisio. Byddwn yn cyflawni hynny drwy:

- Gydweithio er mwyn sicrhau bod unigolion yn ein cymunedau a allai fod yn agored i niwed a/neu sydd yn dioddef camfanteisio, yn cael eu canfod a'u clywed er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau iddynt hwy.
- Meithrin ymddiriedaeth a hyder drwy weithio ochr yn ochr â'n cymunedau ac oddi mewn iddynt.

Mae'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio wedi cael ei ddylunio i fynd i'r afael â'r gwaith partneriaeth a'i arwain, yn ogystal â goruchwylio'r broses o gyflawni amcanion y strategaeth, gan yr holl asiantaethau sy'n bartneriaid, o dan y Strategaeth Ranbarthol, yn ogystal â deddfwriaeth genedlaethol berthnasol.

Mae'r Strategaeth bresennol yn cwmpasu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud o dan yr agenda Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn ogystal ag agweddau eraill ar gamfanteisio. Nid yw'n gwanhau'r gwaith blaenorol a wnaed o dan gyfarwyddyd Bwrdd VAWDASV, ond yn hytrach mae'n ein cefnogi i ystyried yr agenda o safbwynt mwy holistig, gan ddatblygu meysydd newydd o gydweithredu, o ran darparu, yn ogystal ag ymchwilio i gyfleoedd newydd ar gyfer cyd-gomisiynu.

3. Llywodraethiant

Mae Partneriaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru'n atebol am y strategaeth a chyflawni'r amcanion, ac mae'n adrodd i Fwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel. Dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, Swyddfa Gogledd Cymru Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, mae'r Bwrdd Partneriaeth Strategol yn darparu trosolwg, cyfarwyddyd a chymorth i bartneriaid lleol er mwyn sicrhau dull cydweithredol. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn chwarterol er mwyn monitro a gwerthuso cynnydd tuag at gyflawni'r Nodau ac Amcanion Strategol fel yr amlinellwyd hynny yn y Cynllun a Chamau Cyflawni. Anogir pob un o'r chwe ardal Awdurdod Lleol a'r asiantaethau sy'n bartneriaid i roi diweddariad ac adrodd am eu cynnydd a'r rhwystrau i lwyddiant, yn chwarterol.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yn cyfarfod â chymheiriaid o'r Bwrdd, y Byrddau Diogelu (oedolion/plant), y Bwrdd Herio, y Bwrdd Cyfiawnder a'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod ffrydiau gwaith yn cael eu halinio.

Cynrychiolwyr a Phartneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio:

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Barnardo's / Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol (ICTGs)
- BAWSO
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Uned ddiogelwch Cam-drin Domestig Gogledd Cymru (DASU)
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Gorwel
- Cyngor Sir Gwynedd
- Haven of Light
- CEM Berwyn
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWFRS)
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Cymru
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

- Argyfwng Trais ac Ymosodiadau Rhywiol Cymru (RASASC)
- Y Tîm VAWDASV Rhanbarthol
- Cam Wrth Gam ('Stepping Stones') Gogledd Cymru
- Grŵp Arweinyddiaeth Gwrth-gaethwasiaeth Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

4. Meysydd cynnydd penodol yn ystod 2021/22

Roedd 2021/22 yn flwyddyn o adfer a chryfhau a gwelodd y mwyafrif o bartneriaid gynnydd parhaus yn niferoedd y defnyddwyr gwasanaeth sy'n ceisio cymorth yn dilyn effeithiau trychinebus y pandemig, cyfyngiadau lleol a chyfnodau clo llawn.

Yn ystod 2021/22, cafwyd parhad y cynnydd mewn cymorth ariannol ar gyfer y sector arbenigol, a chroesawyd hynny, ond daeth hyn â'i broblemau ei hun, gan fod y cyllid am un flwyddyn yn unig a oedd felly'n ein cyfyngu o ran y prosiectau y gallai eu cefnogi.

Er gwaetha'r rhwystrau niferus oedd yn bodoli, llwyddwyd i gymryd camau arwyddocaol ymlaen, yn arbennig yn y meysydd isod:

1. Arian cyfalaf ar gyfer unedau o dan drefn alldaliadau
2. Cyfleusterau tystiolaeth o bell wedi eu lleoli mewn darpariaeth sector arbenigol
3. Niferoedd uwch o weithwyr trais rhywiol arbenigol, gan gynnwys cynghorwyr, ISVAs a CYPsVAs
4. Niferoedd uwch o weithwyr cam-drin domestig arbenigol, gan gynnwys Gweithwyr Argyfwng
5. Niferoedd uwch o weithwyr Plant a Phobl Ifanc
6. Niferoedd uwch o IDVAs
7. Roedd buddsoddiad cyfalaf mawr gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at ddiogelu eiddo newydd a/neu wedi'i ddiweddarau neu ei adnewyddu ar gyfer y sector arbenigol

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
<p>Amcan VAWDASV 1</p>	<p>1.1 Gwella mynediad i wybodaeth ansawdd uchel a chyfredol ar VAWDASV a'r help sydd ar gael mewn manau cyhoeddus ac ar-lein drwy hyrwyddo Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ac adnoddau ledled y rhanbarth</p>	<p>Tîm VAWDASV Rhanbarthol</p>	<p>Gwariwyd Grant Cyfathrebu £5k LIC ar nwyddau Byw Heb Ofn – balm gwefus, hylif diheintio dwylo a beiros – a adawyd mewn meddygfeydd a fferyllfeydd mewn ardaloedd gwledig yn ystod y pandemig. Anfonwyd y rhain hefyd at Heddlu Gogledd Cymru i'w dosbarthu yn ystod ymgyrchoedd Nadolig mewn mangreoedd trwyddedig.</p> <p>Gweithiodd Cyngorydd Rhanbarthol gyda CBSW a Heddlu Gogledd Cymru i gefnogi prosiectau Strydoedd Mwy Diogel 3 a Merched Mwy Diogel Gyda'r Nos, i sicrhau bod deunyddiau Byw Heb Ofn yn cael eu rhannu'n eang ledled y rhanbarth, yn enwedig o fewn mangreoedd trwyddedig, tacsis ac ati.</p>

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
	<p>1.2 Hyrwyddo rhaglenni cymorth teuluol a rhiantu priodol er mwyn sicrhau bod perthnasoedd diogel ac iach yn cael eu modelu a bod unrhyw agweddau amhriodol tuag at gydraddoldeb rhywiau yn cael eu herio a'u taclo yn briodol.</p>	<p>Partneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio</p>	<p>Dyfarwyd Grantiau Cyllid Refeniw sy'n Seiliedig ar Anghenion o £20k ar gyfer y rhaglen Tadau Gofalgar, ynghyd â gweithiwr cymorth i weithio gyda mamau a phlant y rheiny sy'n mynychu'r rhaglen. Ailgomisiynwyd y rhaglen hon ar gyfer 22/23. Mae hon ar gael yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn unig, ac mae angen rhywbeth tebyg yn yr ardal Ganolog ac yn y Dwyrain.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Cyfarfodydd Grwpiau Teulu sydd ar gael ym mhob ALI, yn galluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i drafod ystod eang o benderfyniadau sy'n ymwneud â lles plant.</p> <p>Mae pob ardal ALI yn darparu lefel uwch o gymorth rhiantu trwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, i ddatblygu sgiliau rhiantu cadarnhaol ynghyd â lles emosiynol cadarnhaol.</p>

	<p>1.3 Rhoi Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol sydd yn gweithio mewn rolau sy'n delio â'r cyhoedd wedi eu harfogi'n llawn i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV.</p>	<p>“Awdurdodau Perthnasol” o dan ddeddfwriaeth 2015</p>	<p>Mae Bwrdd Hyfforddiant Rhanbarthol VAWDASV wedi'i uno â'r Is-grŵp Gweithlu Diogelu a Hyfforddiant Rhanbarthol.</p> <p>Ar 1^{af} Ionawr 2022, roedd y cyfraddau cwblhau ar gyfer modiwl E-ddysgu Grŵp 1 VAWDASV yn amrywio o 45.4% - 90.3% ar draws y rhanbarth. Mae Swyddog Hyfforddiant a Datblygu VAWDASV mewn trafodaethau â'r Is-grŵp Gweithlu a Hyfforddiant Diogelu Rhanbarthol i archwilio'r modd y gellir gwella'r cyfraddau cwblhau. Maent wrthi hefyd yn edrych ar y gofyniad i Awdurdodau Lleol “ddiweddaru” eu gwybodaeth am Grŵp 1, yn unol â'r Canllawiau Statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.</p> <p>Cyflenwyd cyfanswm o 137 o sesiynau Gofyn a Gweithredu Grŵp 2 ar draws pob un o'r chwe Awdurdod Lleol yn y 12 mis ers 1^{af} Ebrill 2021.</p> <p>Dyrannwyd cyfanswm o £18,000 gan Lywodraeth Cymru o ran cyllid Grant Cymhorthdal Gofyn a Gweithredu ar gyfer 22/23.</p> <p>Mae'r Grŵp Datblygu Gweithlu Rhanbarthol yn edrych ar ddatblygu fersiwn Gogledd Cymru o lawlyfr Grŵp 1, i'w wneud yn haws i'w ddarllen. Cafwyd pryderon o ran bod y rheiny sydd â phroblemau o safbwynt TG a llythrennedd yn gyffredinol yn cael trafferth cael mynediad i'r model cyfredol.</p>
--	---	---	---

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
	<p>1.4 Gweithio gyda a chefnogi gwasanaethau BME VAW arbenigol er mwyn ymgymryd â datblygu cymunedol er mwyn herio agweddau diwylliannol a newid arferion allai danategu FGM a phriodi dan orfodaeth.</p>	<p>Partneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio</p>	<p>Dyrannwyd £20k o Grant Refeniw Craidd VAWDASV tuag at ariannu Eiriolwyr Cymunedol BAME i gefnogi gwasanaethau arbenigol prif lif i deilwra darpariaeth yn ôl anghenion penodol dioddefwyr BAME - a fydd yn cynnwys y gofyniad na cheir gofyn am gymorth yn ffurf arian cyhoeddus.</p> <p>Mae darparwyr eraill o fewn y sector arbenigol yn gweithio gyda Savera a Karma Nirvana i ddarparu lefel uwch o gymorth arbenigol i ddioddefwyr camdriniaeth ar sail anrhydedd ynghyd ag arferion niweidiol.</p>
	<p>1.5 Gweithio gyda chomisiynwyr rhanbarthol (gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau digartrefedd, gwasanaethau iechyd a phlant) er mwyn integreiddio VAWDASV i gontractau prif lif er mwyn ymgorffori cymorth i ddioddefwyr a'u teuluoedd mewn gwasanaethau cyffredinol.</p>	<p>Partneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio</p>	<p>Diogelwyd cyllid cyfalaf o £288k gan LIC i ddarparu tair uned ychwanegol o dan drefniant alldaliadau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sydd ag anghenion cymhleth ychwanegol (gyda sylw arbennig i gamddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl) ar gyfer 21/22. Prynwyd ac adnewyddwyd yr unedau sy'n darparu cefnogaeth ar hyn o bryd i ddefnyddwyr gwasanaeth ag amrywiaeth o anghenion a lefelau risg. Caiff y cymorth sydd ynghlwm wrth yr unedau ei ariannu a'i fonitro trwy'r HSG. Mae gan y Grŵp Comisiynu Rhanbarthol gynrychiolwyr o'r APB, HSG, OPCC a chomisiynwyr eraill i sicrhau dull comisiynu cydgysylltiedig yn gyffredinol.</p> <p>Dyrannwyd yr un swm ar ein cyfer yn 22/23 y mae'r Grŵp Cyd-gomisiynu yn ei ystyried ar hyn o bryd o ran y modd gorau i'w wario.</p>

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
Amcan VAWDASV 2	2.1 Datblygu llwybrau cydnerth i blant a phobl ifanc allu riportio trais a cheisio cymorth a chynghor. Darparu gweithwyr cymorth i blant mewn asiantaethau arbenigol, (yn unol â lefel yr angen a nodwyd) yn ogystal â gweithio gydag ysgolion lleol a grwpiau ieuenctid, annog defnyddio "hyrwyddwyr" i weithio fel mentoriaid ac i roi cymorth.	Partneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio a'r Bwrdd Diogelu Plant	Mae llwybrau cymorth yn rhan o gyflwyno Gofyn a Gweithredu o fewn Addysg. Mae'r hyfforddiant hwn wedi dechrau mewn sawl ALL, gyda'r gweddill i fod i gael ei ddarparu yn ystod 22/23. Mae gwaith ym maes plant o fewn y sector arbenigol wedi cynyddu, gyda chyllid ychwanegol gan LIC yn ystod y pandemig ac ers hynny. Mae'r Grŵp Comisiynu Rhanbarthol wedi cyllido gweithwyr ychwanegol i rai darparwyr ar gyfer 22/23. Ariannwyd technoleg ychwanegol i blant allu cwblhau eu gwaith ar-lein o'r cyllid sy'n seiliedig ar anghenion a ddyrannwyd ar gyfer 21/22.
	2.2 Gweithio gydag ysgolion a cholegau er mwyn cefnogi staff i weithredu ethos sy'n ystyriol o drawma, gan alluogi i bobl ifanc deimlo ei bod yn ddiogel iddynt ddatgelu camdriniaeth.	Grŵp Dull Ysgol Gyfan VAWDASV	Cynhaliwyd cyfarfod yn Ebrill 2021 i edrych ar hyfforddiant a chymorth sydd ar gael i ysgolion wrth weithredu'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd. Mae angen newid sylweddol o ran y modd y caiff hyn ei gyflenwi, gan ganolbwyntio ar gydberthnasau a rhywioldeb yn ogystal â'r "addysg rhyw" traddodiadol. Mae'r Tîm VAWDASV Rhanbarthol yn gweithio gyda 'School Beat' (

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
	<p>2.3 Datblygu a darparu rhaglenni er mwyn addysgu, hysbysu a herio plant ifanc ynghylch perthnasoedd iach, camdriniaeth a chydsyniad a gweithio gyda cholegau addysg uwch/bellach ar ddatblygu dull o weithio gyda phobl ifanc er mwyn hyrwyddo'r gwaith o atal VAWDASV a mwy o newid cymdeithasol</p>	<p>Grŵp Dull Ysgol Gyfan VAWDASV</p>	<p>Ceir diffyg cysondeb o ran darpariaeth, ond amrywiaeth dda o safbwynt gwaith mewn ysgolion a cholegau, gan gynnwys Sbectrwm (Hafan Cymru) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, Cam Wrth Gam a RASASC sy'n gweithio mewn colegau AB ac AU. Bydd y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn helpu i annog ysgolion i dderbyn cynigion ar gyfer darpariaeth, ond mae'r diffyg capasiti'n parhau o ran cyflenwi cymorth o ganlyniad i blant yn datgelu gwybodaeth yn dilyn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. Mae'r Cynghorydd VAWDASV Rhanbarthol yn gweithio gyda LIC ar y mater hwn.</p>
<p>Amcan VAWDASV 3</p>	<p>3.1 Comisiynu rhaglenni cyflawnwyr seiliedig ar dystiolaeth ac ymyriadau i'r teulu cyfan gyda ffocws ar annog a chreu newid ymddygiad ar yr un pryd â diogelu eu dioddefwyr/teuluoedd rhag mwy o gamdriniaeth.</p>	<p>Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol</p>	<p>Mae Grŵp Cyd-gomisiynu'r VAWDASV Rhanbarthol wedi comisiynu Choose2Change a Red Snapper i ddarparu ymyriadau newid ymddygiad (gwaith grŵp a darpariaeth unigol ar-lein). Mae gan Choose2Change y fantais ychwanegol o ran ei fod yn ymgorffori cymorth gan bartneriaid i amddiffyn y teulu ehangach. Mae ADAPT ar waith ledled pob ardal erbyn hyn i fynd i'r afael â chyflawnwyr sy'n peri lefel uchel o risg/niwed. Rydym hefyd wedi comisiynu Safe Lives i gyflenwi pecyn hyfforddi 4 diwrnod dwys i gefnogi gweithwyr rheng flaen proffesiynol i ymgysylltu â theuluoedd y mae partner camdriniol yn dal i fyw gyda hwy (mae hyn i fod i ddechrau yn 22/23). Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, comisiynwyd Tadau Gofalgar i weithio gyda thadau sy'n cam-drin eu partneriaid.</p>

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
	<p>3.2 Gweithio gyda Charchar Y Berwyn er mwyn sicrhau bod cymorth o gystodaeth i'r gymuned yn ddi-dor ar gyfer y cyflwynydd a'u teuluoedd (os bydd asesiadau risg priodol a chywir yn bodoli). Llwybr cydnerth o asesiad i'r rhaglen yn y carchar ac yna parhad yn y gymuned ar ôl rhyddhau</p>	<p>Partneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio</p>	<p>Bydd y Cynghorydd Rhanbarthol yn gweithio gyda staff CEM Berwyn yn fuan yn 22/23, gyda golwg ar fwrw ymlaen â hyn.</p>
	<p>3.3 Sicrhau bod cyflawnwyr VAWDASV bob amser yn atebol am eu gweithredoedd.</p> <p>Darparu hyfforddiant i'r holl staff rheng flaen er mwyn cael ymateb cyson i ddatgeliadau cyflawnwyr a dioddefwyr. Dylai hyfforddiant alluogi'r staff i wneud asesiad risg.</p>	<p>Grŵp Hyfforddiant VAWDASV Rhanbarthol</p>	<p>Mae'r Cynghorydd Rhanbarthol yn gweithio gyda LIC, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, NPS a phartneriaid allanol eraill i ddatblygu dull cydlynus, ar sail system gyfan o ran gweithio gyda chyflawnwyr, sy'n caniatáu i gyflawnwyr ymgysylltu â chymorth (i sicrhau diogelwch eu teuluoedd) ni waeth ym mhle y maent ar eu taith. Bydd yr hyfforddiant Safe Lives yn cefnogi gweithwyr proffesiynol i ddeall y modd y gall partner camdriniol ddylanwadu ar weithwyr proffesiynol, yn ogystal â deall beth i'w wneud yn dilyn datgeliad bod rhywun wedi cyflawni trais.</p>

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
Amcan VAWDASV 4	4.1 Peilota'r rhaglen IRIS, gweithio gydag IRISi (cyflwyno darpariaeth cymorth arbenigol mewn meddygfeydd, yn ogystal â darpariaeth iechyd sylfaenol pan fo hynny'n briodol).	Partneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio BCUHB	Mae peilot IRIS wedi dechrau bellach yn Ne Sir Ddinbych, gyda nifer o feddygfeydd eisoes yn dechrau ar yr hyfforddiant, a rhai eraill wedi trefnu i gychwyn. Mae'r Grŵp Llywio IRIS Rhanbarthol wedi'i sefydlu ac yn cyfarfod yn fisol ar hyn o bryd. Rydym yn dal i bryderu am barhad cyllid yn dilyn y peilot, gan na chafwyd unrhyw ymrwymiad gan y Bwrdd Iechyd neu gomisiynwyr o ran parhad y cyllid hwn yn dilyn y cyfnod y peilot.
	4.2 Gwneud y mwyaf o bwyntiau a chyfleoedd datgelu mewn cymunedau lleol i oroeswyr sydd yn ceisio help yn gynnar (oedolion a phlant) a chyflawnwyr, drwy ymgorffori Gofyn a Gweithredu ledled Gogledd Cymru. Sicrhau bod yr holl staff rheng flaen yn deall yr angen i ddarparu amgylchedd diogel er mwyn galluogi datgelu.	Regional VAWDASV Training Group	Mae Gofyn a Gweithredu'n cael ei gyflwyno ledled Gogledd Cymru. Gweler 1.3 Yn 2022/23 bydd mwy o sylw ar gyflwyno Grŵp 3, o dan y teitl "Enhanced Understanding of VAWDASV for Organisational Champions", ar gyfer uwch weithwyr gweithredol o fewn Awdurdodau Lleol.

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
	<p>4.3 Adeiladu capasiti a chyllid cynaliadwy ar gyfer gwaith ymyrryd gyda phlant a phobl ifanc.</p>	<p>Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol</p>	<p>Mae niferoedd uwch o weithwyr Plant a Phobl Ifanc ar draws y rhanbarth yn cyflenwi cymorth 1-2-1 mewn ysgolion, lleoliadau diogel eraill, a thrwy gyfryngau rhithwir lle bo angen.</p> <p>Cyflenwir rhaglenni ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys Break4Change, sesiynau bondio rhwng rhieni a phlant, ynghyd â gwaith grŵp ar sail rhywedd.</p> <p>Mae pecynnau cymorth i blant a phobl ifanc yn cynnwys cymorth emosiynol, cynllunio diogelwch, ymyriadau therapiwtig, gwaith yng nghyswllt cydberthnasau iach, cymorth gydag anghenion addysgol, gwaith yng nghyswllt teimladau, ynghyd â mynd i'r afael â phethau fel straen, gorbryder, ofn, pryder, problemau cysgu ac edrych ar strategaethau ymdopi. Mae ymyriadau ar waith mewn perthynas â 'diogelwch', hunan-niweidio ac ar gyfer rhai sy'n meddwl am hunanladdiad.</p> <p>Comisiynwyd rhagor o weithwyr plant o dan gyllid LIC ar gyfer 22/23, er bod rhestrau aros yn dal i fod yn uchel mewn rhai ardaloedd o ganlyniad i gynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau ar ôl y pandemig.</p>

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
	<p>4.4 Parhau i weithio gyda'r system cyfiawnder troseddol er mwyn lleihau dedfrydau o garchar tymor byr i ferched a'u hymgysylltu â gweithgareddau i ddifyrru. Cefnogi'r gwaith i ddifyrru sydd yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a'i bartneriaid, a datblygu mwy ar y cymorth hwn.</p>	<p>Partneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio</p>	<p>Gweithio gyda LIC ar gefnogi'r Glasbrint Benywod Troseddgar.</p>
	<p>4.5 Sicrhau bod gan deuluoedd y nodwyd eu bod angen cymorth o ran byw gyda VAWDASV yn cael mynediad cynnar i gymorth arbenigol er mwyn lliniaru'r trawma sydd yn gysylltiedig â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac fel oedolion.</p>	<p>Partneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio</p>	<p>Mae pob rhaglen a gyflenwir gan y sector arbenigol yn ystyriol o drawma ac mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant helaeth yn y maes hwn.</p>
	<p>4.6 Gweithio gyda darparwyr arbenigol er mwyn hysbysu'r gwaith o ddatblygu ymwybyddiaeth ACE a sut y gellir defnyddio hynny i ymateb i ddioddefwyr a goroeswyr VAWDASV.</p>	<p>Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol</p>	<p>Mae'r gwasanaethau arbenigol wedi derbyn hyfforddiant ym maes ACE ac mae nifer ohonynt yn cynnig gwasanaeth Adfer ACE fel rhan o'r gyfres o wasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae pob gwasanaeth arbenigol yng Ngogledd Cymru'n gweithio mewn modd sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr.</p>

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
	<p>4.7 Gweithio gyda darparwyr arbenigol er mwyn sicrhau bod gan oroeswyr fynediad i raglenni adfer seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn eu cefnogi i feithrin gwytnwch ac i gryfhau eu rwydwaith cymorth teulu/ffrindiau.</p>	<p>Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol</p>	<p>Rhaglenni Grŵp Therapiwtig a Gweithgareddau Cefnogaeth Gan Gymheiriaid: Mae darparwyr ledled Gogledd Cymru'n cyflenwi sawl rhaglen grŵp therapiwtig sy'n rhoi cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth. Y nod yw eu cefnogi i feithrin gwytnwch, i adfer ar ôl trawma, ac i adael gwasanaethau mewn sefyllfa well i allu mynd i'r afael â'u bywydau yn y dyfodol heb orfod dioddef eu cam-drin. Mae'r rhaglenni'n helpu defnyddwyr gwasanaeth i ddeall eu profiad o gamdriniaeth ac i adnabod yr arwyddion rhybudd cynnar er mwyn iddynt gael eu grymuso i wneud dewisiadau ddeallus o ran eu cydberthnasau yn y dyfodol. Mae hyn hefyd yn helpu defnyddwyr gwasanaeth i herio'r hyn y maent yn ei gredu o ran eu profiadau, ynghyd â'u helpu i ddeall eu hawliau a datblygu eu hunan-barch a'u hyder.</p> <p>Mae'r rhaglen Freedom yn dal i gael ei ddarparu. Bydd rhaglenni eraill fel Own my Life a Break for Change yn cael eu cyflwyno eleni.</p>
<p>Amcan VAWDASV5</p>	<p>5.1 Sicrhau bod darparwyr gwasanaethau arbenigol yn gallu cefnogi dioddefwyr a goroeswyr sydd yn wynebu nifer o anfanteision drwy ddarparu hyfforddiant seiliedig ar adfer sy'n ystyriol o drawma ar gyfer yr holl ddarparwyr gwasanaethau arbenigol a phartner asiantaethau.</p>	<p>Grŵp Hyfforddiant VAWDASV Rhanbarthol</p>	<p>Roedd y sector arbenigol cyfan wedi cael mynediad i hyfforddiant ychwanegol trwy gydol cyfnod y pandemig i uwchsgilio'r gweithlu. Roedd rhywfaint o hyn yn benodol iawn ac yn ymwneud ag arbenigedd gwasanaethau, ond cyflwynwyd themâu mwy cyffredinol hefyd, fel hunanofal a thrawma mechnïol.</p>

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
	<p>5.2 Gwella'r hyfforddiant a ddarperir gan weithwyr proffesiynol a ddaw i gysylltiad â chyflawnwyr er mwyn sicrhau bod datgeliadau yn cael eu rheoli yn briodol, gan roi iddynt ddealltwriaeth o'r angen i gynnwys gweithdrefnau disgyblu/camymddwyn mewnol, yn ogystal â gweithdrefnau cyfiawnder troseddol.</p>	<p>Grŵp Hyfforddiant VAWDASV Rhanbarthol</p>	<p>Mae hyfforddiant Gofyn a Gweithredu'n cefnogi gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu'n briodol ac i wneud atgyfeiriadau addas o fewn VAWDASV yn dilyn datgeliad gan ddiodefwr, a bydd yr hyfforddiant Safe Lives newydd yn sicrhau y lledaenir yr un wybodaeth os datgelir bod rhywun wedi cyflawni camdriniaeth.</p>
	<p>5.3 Gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol, er mwyn sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei ddarparu o ran cefnogi diodefwr VAWDASV drwy ddefnyddio camau unioni sifil.</p>	<p>Partneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio</p>	<p>Mae Ymgynghorydd Rhanbarthol yn gweithio gyda HMCTS er mwyn edrych ar hyfforddiant i ustusiaid a staff llysoedd. Mae hynny wedi bod yn destun oedi o ganlyniad i Covid.</p>
	<p>5.4 Gweithio gyda chomisiynwyr rhanbarthol (gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau digartrefedd, gwasanaethau iechyd a phlant) er mwyn integreiddio VAWDASV i gontractau prif lif er mwyn ymgorffori cymorth i ddiodefwr a'u teuluoedd mewn gwasanaethau cyffredinol.</p>	<p>Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol</p>	<p>Gweler VAWDASV 1.5</p>

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
<p>Amcan VAWDASV 6</p>	<p>6.1 Sicrhau bod yna gymorth hirdymor yn ei le ar gyfer holl oroeswyr VAWDASV er mwyn iddynt wella o'u profiadau, gan ddefnyddio ymyriadau seiliedig ar adfer ac sy'n ystyriol o drawma. Dylai cymorth penodol gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymorth arbenigol i rai sydd wedi dioddef FGM, HBV, FM a/neu nad ydynt yn gallu cael mynediad i arian cyhoeddus • Cymorth tai, hyrwyddo cefnogaeth i ddiodefwr allu aros yn eu cartrefi, a'r cyflawnydd yn cael ei yrru allan • Cymorth trais rhywiol 	<p>Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol</p>	<p>Mae'r Grant Cymorth Tai ar waith, sy'n darparu llety lloches a chymorth, cymorth lle bo'r angen, gwaith ymyrraeth a chymorth arbenigol arall. Mae cyllid ychwanegol gan LIC ac OPCC yn cynnwys y ddarpariaeth IDVA ranbarthol, ac mae LIC yn ariannu'r ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr, yn ogystal â meysydd eraill, yn seiliedig ar anghenion cyfredol, fel Gweithwyr Plant y rhaglen Tadau Gofalgar a Chynghorwyr Trais Rhywiol.</p> <p>Dyrannwyd cyllid i BAWSO barhau i ddarparu eu cymorth arbenigol ar gyfer y rheiny sy'n profi FGM, HBV, FM ledled y rhanbarth.</p> <p>Mae RASASC Gogledd Cymru a Cam Wrth Gam wedi derbyn cyllid i recriwtio ar gyfer swydd ISVA ynghyd â gweithiwr Llinell Gymorth Byw Heb Ofn sydd wedi derbyn hyfforddiant ynghylch Trais Rhywiol. Mae'r swyddi hyn yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau bod goreswyr yng Ngogledd Cymru'n derbyn y gwasanaeth gorau sy'n ystyriol o drawma i ddiwallu eu hanghenion.</p>

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/CMG ('RAG')
	<p>6.2 Sicrhau bod gan ddiodefwrwyr VAWDASV gymorth priodol drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol, o ddatgelu i'r erlyniad. Darparu darpariaeth IDVA/ISVA cyson ledled Gogledd Cymru, gan gynnig yr un gwasanaeth i ddiodefwrwyr VAWDASV, ble bynnag maent yn byw yng Ngogledd Cymru.</p>	<p>Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol</p>	<p>Rheolir y ddarpariaeth IDVA ranbarthol gan DASU a Gorwel ac fe'i hariennir gan y Grŵp Cydgomisiynu. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau darpariaeth gyson, 24/7, ar draws y rhanbarth, ac yn cysylltu â system rota Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau bod Swyddogion Cam-drin Domestig yn ymwybodol bob amser o ba IDVA/s sydd ar alwad. Caiff y ddarpariaeth ISVA ei rheoli gan y SARC, a lleolir ISVA gyda RASASC a Cam Wrth Gam, i gefnogi'r rheiny nad ydynt yn dymuno ymgysylltu â phartneriaid ym maes cyfiawnder troseddol.</p>
			<p>Mae cyfleusterau ar gyfer darparu tystiolaeth o bell ar gael erbyn hyn yn Llangefni, Dolgellau a Wrecsam. Mae gwrandawiadau ar gyfer achosion yn cael eu cynnal eisoes yn Wrecsam. Bydd y cyfleusterau hyn yn caniatáu cymorth diogel i dystion mewn achosion yn y llys troseddol a'r llys teulu.</p>
	<p>6.3 Darparu proses MARAC safonedig, gyda thrafodaethau achos rhithiol rheolaidd, yn ogystal â chyfarfodydd misol er mwyn ystyried achosion mwy cymhleth. Pob ardal i gael ei monitro'n rheolaidd o ran llywodraethiant a gweithredu prosesau.</p>	<p>Partneriaid y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio</p>	<p>Mae cyfarfodydd MARAC wythnosol yn cael eu cynnal erbyn hyn ym mhob ardal, yn ogystal â'r cyfarfodydd MARAC misol ar gyfer yr achosion mwyaf cymhleth. Caiff llywodraethiant y MARAC ei fonitro gan y Grŵp Llywio MARAC Rhanbarthol, sy'n cyfarfod bob chwarter. Cafodd newidiadau diweddar i'r broses MARAC wythnosol eu peilota, i sicrhau y caiff achosion cymhleth eu symud i gyfarfodydd misol, ac y cynhelir cyfarfodydd wythnosol mewn modd amserol.</p>

